# Diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033

## Crynodeb Annhechnegol - Cynllun Adneuo

## Yr Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Ionawr 2020



# Cynnwys


Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 3
Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol 3
Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd 4
Cam B - Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd 5
Cyd-destun Polisi 6
Gwybodaeth Sylfaenol 7
Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin 9
Materion a Chyfleoedd 10
Y Fframwaith Cynaliadwyedd 11
Cam B - Arfarnu Dewisiadau Eraill 12
AC o'r Weledigaeth a'r Amcanion 13
AC o Ddewisiadau Twf 16
Arfarniad Cynaliadwyedd o Ddewisiadau Gofodol 18
Dewis Hybrid – Cymuned Gytbwys a Thwf Cynaliadwy 25
Arfarniad Cynaliadwyedd o Bolisïau Strategol 27
Effeithiau Cyffredinol y Strategaeth a Ffefrir 28
Cam C - Arfarnu'r Cynllun Adneuo 30
Arfarniad Cynaliadwyedd o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun Adneuo 31
Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Strategaeth Dwf a Ffefrir o'r Cynllun Adneuo 32
Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir o'r Cynllun Adneuo 33
Arfarniad Cynaliadwyedd o Bolisïau Penodol y Cynllun Adneuo 35
Arfarniad Cynaliadwyedd o Ddyraniadau Arfaethedig y Cynllun Adneuo 39

| | |
|---|---|
| Effeithiau Cyffredinol y CDLl Adneuo | 45 |
| Fframwaith Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd | 46 |
| Ymgynghori a'r Camau Nesaf | 47 |

# Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig. Mae'r CDLl yn nodi gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ar gyfer defnyddio a datblygu tir yn Sir Gaerfyrddin, a'i bolisïau a'i gynigion ar gyfer eu gweithredu, ar gyfer y cyfnod hyd at 2033. Bydd yn pennu faint o dwf sydd ei angen a ble fydd y twf hwn wedi'i leoli yn y sir. Bydd hefyd yn ceisio gwarchod rhai ardaloedd rhag datblygu amhriodol er mwyn cynnal y dirwedd a'r amgylchedd.

# Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

Wrth lunio CDLl, mae'n bwysig fod ei effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn golygu bod modd gwneud asesiad gwrthrychol, ar sail tystiolaeth, o effeithiau'r CDLl, a'u nod yw lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol gymaint ag y bo modd.

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod y CDLl yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, o dan Ddeddf Cynllunio Cymru (2015) a Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru). Mae'r ddeddf hon hefyd yn mynnu bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn integreiddio gofynion Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yr Undeb Ewropeaidd a Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ac yn cydymffurfio â hwy.

Mae datblygu cynaliadwy yn seiliedig ar yr egwyddor o sicrhau ansawdd bywyd gwell i bawb, yn awr ac yn y dyfodol.













# Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd

Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn gofyn am gyflawni pum prif gam, sy'n digwydd ochr yn ochr â pharatoi'r CDLl diwygiedig, a amlinellir yn Ffigur 1. Y camau hyn yw:

- Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas. Mae'r cam hwn yn digwydd ochr yn ochr â cham 'Casglu Tystiolaeth' y CDLl.
- Cam B: Datblygu a mireinio dewisiadau eraill a mynd i'r afael â'r effeithiau. Mae'r cam hwn yn digwydd ochr yn ochr â cham 'Materion a Dewisiadau' y CDLl.
- Cam C: Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol
- Cam D: Ymgynghori ynghylch yr Adroddiad Amgylcheddol. Mae'r cam hwn yn digwydd ochr yn ochr â cham 'Dewisiadau a Ffefrir' y CDLl.
- Cam E: Monitro'r gwaith o weithredu'r cynllun. Mae'r cam hwn yn digwydd ar ôl i'r CDLl a ffefrir gael ei gyflwyno a'i dderbyn.

Ffigwr 1 Prif gamau proses y CDLl ac integreiddio â gofynion yr arfarniad cynaliadwyedd. Ffynhonnell: Llawlyfr CDLl Argraffiad 3

# Cam A — Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Yr Adroddiad Cwmpasu oedd y ddogfen gyntaf i gael ei chynhyrchu fel rhan o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol ac roedd yn mynd i'r afael â Cham A. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2018. Nod yr Adroddiad Cwmpasu yw mynd i'r afael ag unrhyw heriau lleol yn seiliedig ar yr amodau presennol, a thynnu sylw at unrhyw faterion tebygol a allai godi fel rhan o'r cynllun. Mae hefyd yn sefydlu fframwaith ar gyfer profi sut y bydd y CDLl yn cyflawni datblygu cynaliadwy yng nghamau paratoi'r dyfodol. Camau allweddol yr adroddiad cwmpasu yw:

- Nodi unrhyw bolisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill i sicrhau bod y CDLl yn gyson â chyd-destun polisi cyfredol y llywodraeth.
- Casglu gwybodaeth sylfaenol ar y sefyllfa economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol yn Sir Gaerfyrddin.
- Trafod a nodi'r prif faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar Sir Gaerfyrddin.
- Datblygu fframwaith o amcanion a dangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio i brofi effeithiau'r CDLl



# Cyd-destun Polisi

Nid yw CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn cael ei baratoi ar ei ben ei hun; dylanwadir arno gan gynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill, ynghyd ag amcanion cynaliadwyedd ehangach yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rhaid i'r CDLl Diwygiedig hefyd gydymffurfio â deddfwriaeth gwarchod yr amgylchedd. Cynhaliwyd adolygiad o'r polisïau perthnasol hyn ac adroddir amdano yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd, a gellir ei weld yn llawn yn Atodiad 1 yr adroddiad. Nodir yr egwyddorion allweddol ac maent yn cael eu defnyddio i ddylanwadu'n gadarnhaol ar gyfeiriad y CDLl Diwygiedig.

## Rhyngwladol

Deddfwriaeth a strategaethau rhyngwladol yw haen uchaf yr agenda datblygu cynaliadwy. Mae'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd a'r strategaethau yn ymwneud â materion cynaliadwyedd sy'n bwysig iawn ar raddfa fyd-eang, ond eto gall fod angen gweithredu lleol er mwyn bod yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys materion megis:

- Newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy
- Cymunedau cynaliadwy
- Trafnidiaeth gynaliadwy a charbon isel
- Rheoli gwastraff
- Defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Cynhwysiant cymdeithasol a thlodi
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth
- Gwella ansawdd dŵr ac aer



## Cenedlaethol

Mae polisi ar lefel genedlaethol yn adlewyrchu'r themâu hynny a nodwyd ar y raddfa ryngwladol, yn ogystal â'r materion hynny sy'n fwy penodol i Gymru, yn enwedig o ran materion economaidd-gymdeithasol. Rhaid i ddogfennau lefel genedlaethol adlewyrchu'r agenda llesiant bellach a rhoddir pwys mawr ar greu cymunedau diogel, cynhwysol ac iach. Mae themâu eraill yn cynnwys:

- Hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- Economi a thwristiaeth Cymru
- Lleihau'r angen i deithio
- Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Dylunio o ansawdd uchel a seilwaith gwyrdd



## Lleol

Mae dogfennau a strategaethau lefel is-Gymru a Sir Gaerfyrddin hefyd yn adlewyrchu'r themâu cynaliadwyedd hynny a amlygir mewn dogfennau cenedlaethol a rhyngwladol, gan geisio mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Allgáu cymdeithasol
- Mynediad cynaliadwy at wasanaethau
- Cymunedau diogel ac iach
- Addysg a chyflogaeth
- Adfywio
- Yr amgylchedd naturiol
- Newid yn yr hinsawdd

Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu cyfres o amcanion llesiant sy'n cael eu cefnogi gan gyfres o gynlluniau gweithredu, er mwyn gwella iechyd a llesiant ar draws y sir.



# Gwybodaeth Sylfaenol

Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn dwyn ynghyd wybodaeth am sefyllfa economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol Sir Gaerfyrddin. Mae'n helpu i nodi'r materion y dylai'r Arfarniad Cynaliadwyedd ganolbwyntio arnynt ac mae'n gosod meincnod y gellir asesu perfformiad y CDLl yn ei erbyn. Wrth i'r Arfarniad Cynaliadwyedd symud yn ei flaen, mae'r wybodaeth sylfaenol wedi cael ei mireinio ac mae data manylach a mwy cywir sy'n berthnasol i'r fframwaith cynaliadwyedd wedi cael ei ddynodi.

Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi cael ei chrynhoi o dan gyfres o benawdau ac adroddir arni yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd, a gellir ei gweld yn llawn yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Mae crynodeb o'r ystadegau sylfaenol allweddol ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'i amlinellu isod.



1 ym mhob 25

Mae Sir Gâr yn bennaf yn wyn, gyda 4% o'r boblogaeth o gefndir heb fod yn wyn

Mae dros 78,800 o aelwy-dydd yn Sir Gâr, gyda dim ond un person yn byw yn 30% ohonynt.

44 o droseddau bob 1000 o'r boblogaeth

Mae 7 ym mhob 10 aelwyd wedi ei brynu (yn gyfan neu gyda morgais)

14% yn rhentu'n gymdeithasol

10% rhent preifat

79% yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal

Yn Sir Gâr y ceir y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef 78,048

Mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardal wledig, sy'n ffurfio 53% o'r Sir

6 ym mhob 10

Mae **tair prif dref sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman** sy'n gartref i 25% o'r boblogaeth

25%

8166 o droseddau wedi eu cofnodi 2015/16

+50 awr

Mae dros 7000 yn darparu mwy na 50 awr yr wythnos o ofal di-dâl

## Economi

8 ym mhob 10

Mae bron 8 ym mhob 10 o boblogaeth oedran gweithio Sir Gâr (16-64) yn weithgar yn economaidd (62% fel cyflogeion; 12% hunangyflogedig)

79%, 89,600

63,000 o swyddi cyflogedig yn Sir Gâr

£23,825 yw Incwm Aelwyd Canolrif Sir Gâr, o'i gymharu â chanolrif Cymru sy'n £24,944

7% mewn gweinyddiaeth gyhoeddus

1 ym mhob 5 yn gweithio mewn cyfanwerthu a mân-werthu

13% mewn gweithgynhyrchu

1 ym mhob 5 yn gweithio ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol

10% yn addysg

Mae mwy na 1 ym mhob 3 o aelwydydd yn byw mewn tlodi, yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru - aelwydydd gyda llai na 60% o incwm canolrif y DU

(36%)




## Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin

Mae'r ffeithluniau hyn yn ganfyddiadau o Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd yn 2017. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn datgan bod yn rhaid i ni wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy:-

**"gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol ledled Sir Gaerfyrddin i weithredu ar y cyd a sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol sy'n gyfrifol am wella llesiant yn y sir. Drwy broses yr arfarniad cynaliadwyedd, mae'r CDLl diwygiedig yn ceisio cyd-fynd ag amcanion llesiant Sir Gaerfyrddin a'u cyflawni.

# Materion a Chyfleoedd

Caiff y materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn Sir Gaerfyrddin eu hamlinellu a'u trafod yn Adran 5 Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Nod y CDLl Diwygiedig fydd ymdrin â'r materion a nodwyd a hyrwyddo unrhyw gyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg.

Un o allbynnau allweddol yr adroddiad cwmpasu yw datblygu fframwaith o amcanion, is-amcanion a dangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio i asesu a monitro effeithiau'r CDLl.

## Amgylcheddol a Diwylliannol







- Byw o fewn terfynau amgylcheddol a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau
- Diogelu a gwella bioamrywiaeth drefol a gwledig
- Lleihau lefelau llygredd aer
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu gwytnwch Sir Gaerfyrddin i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- Gwneud lle ar gyfer dŵr, a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd
- Cynnal a gwella ansawdd dŵr
- Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff
- Diogelu a gwella tirweddau a threfweddau
- Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol ac annog twf y Gymraeg.

## Cymdeithasol ac Economaidd







- Sicrhau bod tai addas, fforddiadwy
- Hyrwyddo cadw pobl ifanc
- Annog ffyrdd iach o fyw a llesiant
- Darparu cyfleoedd addysg a dysgu gydol oes hygyrch
- Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da
- Gwella gwead cymdeithas a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

# Y Fframwaith Cynaliadwyedd

O'r wybodaeth sylfaenol, nododd yr Adroddiad Cwmpasu 15 o Amcanion Cynaliadwyedd allweddol. Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu'r materion a amlygwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd, ac maent hefyd yn cynnwys pynciau a restrir yn rheoliadau'r AAS. Mae'r amcanion yn ffurfio fframwaith er mwyn gallu mesur cynaliadwyedd polisïau a chynigion y Cynllun.















## Amcanion Cynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| **SA1** | Datblygu Cynaliadwy |
| **SA2** | Bioamrywiaeth |
| **SA3** | Ansawdd Aer |
| **SA4** | Ffactorau Hinsoddol |
| **SA5** | Dŵr |
| **SA6** | Asedau Materol |
| **SA7** | Pridd |
| **SA8** | Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol |
| **SA9** | Tirwedd |
| **SA10** | Poblogaeth |
| **SA11** | Y Gymraeg |
| **SA12** | Iechyd a Llesiant |
| **SA13** | Addysg a Sgiliau |
| **SA14** | Economi |
| **SA15** | Gwead Cymdeithas |

# Cam B - Arfarnu Dewisiadau Eraill

Cafodd yr arfarniad o ddewisiadau eraill ei gynhyrchu a'i gyhoeddi fel Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl ym mis Rhagfyr 2018. Nod yr Arfarniad Cychwynnol oedd asesu cynaliadwyedd Strategaeth a Ffefrir y CDLl, gan gynnwys:

- Gweledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun.
- Y gwahanol ddewisiadau a gynigir ar gyfer twf tai.
- Y gwahanol ddewisiadau gofodol a gynigir ar gyfer dosbarthiad twf.
- Y polisïau strategol a gynigir i weithredu'r strategaeth.

## Penderfynu ar yr Effeithiau

Mae profi cynaliadwyedd y CDLl yn cynnwys rhagfynegi pa newidiadau i'r llinell sylfaen a allai ddigwydd o ganlyniad i weithredu'r cynllun. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i'r arfarniad cynaliadwyedd ystyried maint effeithiau'r cynllun, sensitifrwydd yr amgylchedd a effeithir a natur yr effeithiau, gan gynnwys tebygolrwydd, hyd, amlder, gwrthdroi ac effeithiau cronnus.

## Amserlenni

Mae hi hefyd yn bwysig ystyried dros ba amserlenni y gallai effeithiau ddigwydd. Gyda hyn mewn golwg, ystyriodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd effeithiau dros yr amserlenni canlynol:




## Matricsau Effaith

Er mwyn profi'r Strategaeth a Ffefrir yn erbyn y Fframwaith Cynaliadwyedd, defnyddiwyd matricsau i grynhoi'r arfarniad gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

| **Symbol** | **Effeithiau a Ragwelir** | |
|---|---|---|
| ++ | Effeithiau cadarnhaol iawn | Byddai'r testun o gymorth sylweddol i gyflawni'r amcan Arfarniad Cynaliadwyedd |
| + | Effeithiau cadarnhaol | Byddai'r testun o gymorth i gyflawni'r amcan Arfarniad Cynaliadwyedd |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Byddai'r testun o gymorth i gyflawni rhai elfennau o'r Arfarniad Cynaliadwyedd, ond byddai'n llesteirio rhai eraill |
| - | Effeithiau negyddol | Byddai'r testun mewn gwrthdaro ag amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd |
| -- | Effeithiau negyddol iawn | Byddai'r testun mewn gwrthdaro sylweddol ag amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd |
| I | Mae'r effaith yn dibynnu ar weithredu | Yn dibynnu ar sut y gweithredir polisi/dyraniadau |
| ? | Effaith ansicr | Angen mwy o wybodaeth |

## Effeithiau trawsffiniol

Rhaid i'r arfarniad cynaliadwyedd ystyried hefyd a fydd y CDLl yn cael unrhyw effaith y tu allan i ardal y cynllun. Gallai effeithiau trawsffiniol gynnwys gorddarparu cartrefi mewn ardal sy'n ffinio ag awdurdod lleol arall, llifogydd i lawr yr afon, mynediad at swyddi neu newidiadau o ran patrymau cymudo. Mae Sir Gaerfyrddin yn ffinio â phum awdurdod lleol arall, gan gynnwys Sir Benfro, Ceredigion, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phowys.

# AC o'r Weledigaeth a'r Amcanion

Swyddogaeth y Weledigaeth yw sefydlu diben craidd y CDLl diwygiedig a darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisïau a mesur faint o lwyddiant a gafwyd wrth weithredu’r cynllun. Aseswyd gweledigaeth ac amcanion y CDLl drafft yn erbyn fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd er mwyn nodi unrhyw effeithiau sylweddol neu ganlyniadau anghynaliadwy. Roedd hyn yn helpu i fireinio'r weledigaeth a'r amcanion a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r egwyddorion cynaliadwyedd yn llawn. Daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol i'r casgliad fod y weledigaeth ddrafft yn perfformio'n dda yn erbyn y fframwaith cynaliadwyedd. Nodwyd ei bod yn anodd asesu pa effaith fyddai'r weledigaeth yn ei chael ar amcanion amgylcheddol gan nad oedd cyfeiriad uniongyrchol atynt; fodd bynnag, mae'r weledigaeth yn gefnogol o safbwynt 'gwerthfawrogi a pharchu rhinweddau amgylcheddol’. Nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad penodol at yr iaith Gymraeg yn y weledigaeth ac felly ar y pryd nid



**Un Sir Gâr**

**Bydd Un Sir Gâr 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog (gan gynnwys y Gymraeg) eu gwerthfawrogi a'u parchu, ar gyfer trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.**
**Bydd ganddi gymunedau ffyniannus, cydlynus a chynaliadwy a fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau i bobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir.**
**Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.**

oedd cysylltiad rhwng gweledigaeth y CDLl ac amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Rhoddodd y CDLl Adneuo sylw i'r holl sylwadau a wnaed yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol, yn ogystal â'r sylwadau hynny a wnaed gan nifer o randdeiliaid drwy gydol y broses ymgynghori. O ganlyniad, diwygiwyd y weledigaeth i gynnwys cyfeiriad at y Gymraeg, yn ogystal â geiriad i gyfeirio at y ffaith bod Sir Gaerfyrddin nid yn unig yn cael ei gwerthfawrogi gan drigolion ond hefyd gan ei hymwelwyr, gan dynnu sylw at bwysigrwydd twristiaeth i'r Sir. Dangosir gweledigaeth y CDLl Adneuo, gan gynnwys y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r arfarniad cynaliadwyedd a'r ymgynghoriad, uchod.

Mae amcanion y CDLl yn datgan yn glir sut y bydd gweledigaeth y CDLl yn cael ei chyflawni. Maent yn darparu fframwaith ar gyfer ffurfio'r polisïau strategol a phenodol. Rhestrir yr Amcanion Strategol yma.

Canfu'r Arfarniad Cynaliadwyedd fod y 14 Amcan Strategol yn perfformio'n gadarnhaol yn erbyn y Fframwaith Cynaliadwyedd, ac ychydig iawn o achosion posibl o wrthdaro y tynnwyd sylw atynt. Roedd yn anodd rhagweld llawer o'r effeithiau o ganlyniad i'r CDLl gan fod y canlyniadau yn dibynnu ar y math o ddatblygiad, gweithgaredd neu leoliad. Tynnodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd sylw hefyd at rai achosion posibl o wrthdaro, gyda golwg ar Fioamrywiaeth, Ansawdd Aer, Dŵr a Threftadaeth Ddiwylliannol. Lle bo'n bosibl, dylid datrys yr effeithiau hyn a allai fod yn negyddol a'r ansicrwydd trwy bolisïau manwl y CDLl a mesurau lliniaru priodol.




## Arferion Iach

**SO1** Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau, yn cael ei ddiogelu a'i wella

**SO2** Cynorthwyo i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd llesiant trwy fynediad i gyfleusterau cymunedol a hamdden yn ogystal â chefn gwlad

**SO5** Diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a hyrwyddo'r arfer o ailddefnyddio adeiladau segur yn briodol.

## Ymyrraeth Gynnar

**SO3** Helpu i ehangu a hyrwyddo cyfleoedd am addysg a hyfforddiant sgiliau i bawb.

**SO4** Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hyrwyddo mynediad i wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith amrywiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog.

## Cysylltiadau Cryf

**SO6** Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal trwy gyfeirio datblygiadau i leoliadau cynaliadwy sydd â mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, a rhoi anogaeth i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**SO7** Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael ag achos newid yn yr hinsawdd ac addasu i effeithiau hynny, gan gynnwys hyrwyddo ynni adnewyddadwy a'r defnydd effeithlon o adnoddau a'u diogelu.

**SO8** Cyfrannu at ddarparu system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy sydd ar gael i bawb, gan gynnwys cysylltiadau â dulliau trafnidiaeth amgen



## Pobl a Lleoedd Ffyniannus

**SO9** Diogelu a gwella cymeriad amrywiol, nodweddion unigryw, diogelwch a bywiogrwydd cymunedau'r Sir drwy hyrwyddo dull o greu lle ac ymdeimlad o le.

**SO10** Gwneud darpariaeth ar gyfer nifer a chymysgedd priodol o gartrefi o ansawdd ar draws y Sir yn seiliedig ar egwyddorion datblygu economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfle cyfartal.

**SO11** Helpu i warchod, gwella a hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r Sir ynghyd â'i hasedau a'i gwead cymdeithasol.

**SO12** Annog buddsoddiad ac arloesedd mewn ardaloedd gwledig a threfol trwy sicrhau darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r angen am waith a chyfrannu ar lefel ranbarthol tuag at gyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**SO13** Darparu ar gyfer mentrau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn.

**SO14** Adlewyrchu'r gofynion sy'n gysylltiedig â chyflwyno datblygiadau newydd, o safbwynt seilwaith caled a meddal (gan gynnwys band eang).

Gwnaed rhai mân ddiwygiadau i'r Amcanion Strategol yn dilyn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol a'r ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar ynni adnewyddadwy yn AS7 a chyfeiriwyd at nifer a chymysgedd digonol o dai yn AS10.

Mae'r matrics isod yn crynhoi perfformiad Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y CDLl Adneuo yn erbyn y Fframwaith Cynaliadwyedd. Mae'n anochel bod peth gwrthdaro yn parhau, fel yr Amcanion Strategol hynny sy'n cefnogi datblygu cynyddol yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd hynny sy'n ymwneud â materion amgylcheddol fel bioamrywiaeth, ansawdd aer, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd. Fodd bynnag, gall yr effeithiau hyn gael eu lliniaru gan bolisïau strategol a phenodol ar gyfer y pynciau hyn a fyddai'n diogelu yn wyneb datblygiad. O ran yr amcanion hynny lle mae ansicrwydd yn parhau, mae'n fwy priodol asesu effeithiau o'r fath o dan bolisïau diweddarach, mwy penodol, y bydd datblygu yn cael ei weithredu drwyddynt.

## Ffigwr 2 Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o Weledigaeth ac Amcanion y CDLl Adneuo

| | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Vision** | + | + | | | | + | | + | + | + | + | + | + | + | + |
| **SO1** | + | + | + | + | + | | | | + | | | ? | | | |
| **SO2** | + | ? | | | ? | + | | | ? | + | | + | | | + |
| **SO3** | + | | | | | | | | + | + | + | | | | + |
| **SO4** | + | | + | + | | + | | | + | + | + | | | + | + |
| **SO5** | + | | | | | | + | + | + | | + | + | | | |
| **SO6** | + | + | + | + | + | + | + | | + | | | + | + | | + |
| **SO7** | + | | + | + | + | + | | | + | | | | | | |
| **SO8** | + | | | + | | + | | | ? | + | | + | | | + |
| **SO9** | + | + | | | | | | + | + | + | + | | | | + |
| **SO10** | + | | | | | | | + | + | + | + | | | | + |
| **SO11** | + | | | | | | | | + | + | + | | + | | + |
| **SO12** | + | - | - | ? | - | ? | | | - | + | ? | + | + | + | + |
| **SO13** | + | - | - | | - | | | - | ? | + | ? | + | + | + | |
| **SO14** | + | | + | + | + | + | | | - | + | | + | + | + | + |

# AC o Ddewisiadau Twf

Mae'n rhaid i'r CDLl diwygiedig ystyried poblogaeth, tai a thwf economaidd yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod y cynllun o bymtheng mlynedd. Roedd Strategaeth a Ffefrir y CDLl yn asesu'r wyth dewis twf (a ddangosir yma) yn seiliedig ar ragfynegiadau a wnaed ar sail gwahanol dueddiadau demograffig a chyflogaeth. Ar gyfer pob un o'r dewisiadau, amcangyfrifwyd hefyd nifer y tai y byddai eu hangen i gynnal y twf.

Daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd i'r casgliad mai Dewisiadau 4 a 5 oedd y dewisiadau twf mwyaf cynaliadwy gan mai dyma'r rhai oedd â'r cydbwysedd gorau rhwng y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â thwf uwch a'r posibilrwydd o effeithiau amgylcheddol negyddol. Roedd Dewisiadau 1 a 2 yn gweld twf isel a oedd yn perfformio'n well o safbwynt yr effeithiau amgylcheddol, ond nid oeddent yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion economaidd-gymdeithasol presennol yn y Sir, megis cydbwysedd poblogaeth, tai fforddiadwy a mynediad i gyfleusterau iechyd. Dewisiadau 7 ac 8 oedd â'r potensial mwyaf am effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ond roeddent yn perfformio'n dda yn erbyn amcanion cynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol, megis yr economi a'r boblogaeth.

Dangosir crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Dewisiadau Twf ar dudalen X. Gellir gweld yr asesiad llawn a'r sylwadau ar dudalennau 17 i 38 o'r Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

## Y Dewisiadau Twf

| Dewis | Nifer y tai sydd eu hangen bob blwyddyn |
|---|---|
| **1.** Llywodraeth Cymru 2014 (yn seiliedig ar Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru) | 224 |
| **2.** Llywodraeth Cymru (yn seiliedig ar dueddiadau 10 mlynedd) | 436 |
| **3.** Tymor Byr (yn seiliedig ar dueddiadau 5 mlynedd) | 470 |
| **4.** Tymor Canolig (yn seiliedig ar dueddiadau 10 mlynedd) | 482 |
| **5.** Tymor Hir (yn seiliedig ar dueddiadau 16 mlynedd) | 659 |
| **6.** Cyn y Dirwasgiad (yn seiliedig ar dueddiadau cyn-2008) | 939 |
| **7.** Cyflogaeth Sefydlog (yn seiliedig ar gyfradd gymudo sefydlog) | 1160 |
| **8.** Cyflogaeth ar sail Cymudo Is (yn seiliedig ar gyfradd gymudo is) | 1313 |

Ffigwr 3 Matrics Cryno o Arfarniad Cynaliadwyedd y Dewisadau Twf

| | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dewis1** | - | +/- | +/- | +/- | + | | + | I | I | - - | - | - - | ? | - - | - - |
| **Dewis 2** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Dewis 3** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Dewis 4** | - | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| **Dewis 5** | + | +/- | +/- | +/- | + | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| **Dewis 6** | + | +/- | +/- | +/- | - | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| **Dewis 7** | - | - | - | - | - | | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |
| **Dewis 8** | - | - | - | - | - - | | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |




# Arfarniad Cynaliadwyedd o Ddewisiadau Gofodol

Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLl wedi nodi a datblygu ystod o ddewisiadau gofodol sy'n dangos ffyrdd gwahanol o ddosbarthu twf yn ofodol ar draws y Sir.

Nodwyd chwe dewis gofodol a chawsant eu profi yn erbyn y fframwaith cynaliadwyedd:

- Dewis 1: Dosbarthiad Cynaliadwy (Dewis y CDLl Presennol)
- Dewis 2: Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth
- Dewis 3: Gwasgaru
- Dewis 4: Dan Arweiniad y Gymuned
- Dewis 5: Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe
- Dewis 6: Dan Arweiniad y Farchnad

Yn gyffredinol, daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd i'r casgliad mai Dewisiadau 1 a 4 oedd y mwyaf cynaliadwy o'r dewisiadau gofodol gan eu bod yn perfformio'n dda o ran yr economi, yn gwella gwead cymdeithas ac yn mynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig a threfol y Sir. Rhagwelid hefyd y byddai yna effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gan fod cynnal cymunedau bywiog mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd yn debygol o annog siaradwyr Cymraeg ifanc i aros yn y Sir.

Roedd hyn yn wahanol i Ddewisiadau 2 a 3 a oedd yn perfformio'n wael yn erbyn y fframwaith cynaliadwyedd gan nad ydynt yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion neu economi'r ardaloedd gwledig ac nid oeddent yn perfformio'n dda o safbwynt gwella cydraddoldeb cymdeithasol ledled y Sir.

Roedd Dewisiadau 5 a 6 yn debyg o ran eu heffeithiau gan eu bod ill dau yn gweld y twf uchaf yn digwydd mewn ardaloedd sydd yn hanesyddol wedi derbyn twf, megis Llanelli, Cross Hands a Chaerfyrddin. Roedd Dewis 5 yn arbennig yn perfformio'n dda o safbwynt yr economi ac addysg a sgiliau oherwydd yr effaith gynyddol a gaiff y mewnfuddsoddiad yn sgil Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar draws y Sir. Fodd bynnag, nid oeddent yn perfformio'n dda yn erbyn amcanion amgylcheddol yr Arfarniad Cynaliadwyedd megis ansawdd aer, dŵr a ffactorau hinsoddol gan y byddai'r dewisiadau hyn yn dosbarthu twf i ardaloedd sydd â phroblemau ansawdd aer ar hyn o bryd ac sydd eisoes yn wynebu perygl llifogydd.

Ar gyfer pob un o'r Dewisiadau Gofodol, mae eu perfformiad yn erbyn Amcanion Cynaliadwyedd megis treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a thirwedd yn dibynnu i raddau helaeth ar ddewis a gweithredu safle oherwydd natur yr effeithiau hyn sy'n benodol i safle.

Dangosir crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer pob un o'r dewisiadau gofodol ar dudalennau 19 i 24. Gellir gweld yr asesiad llawn ar dudalennau 39 i 71 o'r Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

## Ffigwr 4 Arfarniad Cynaliadwyedd Dewis Gofodol 1 – Dosbarthiad Cynaliadwy




Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio twf mewn modd cymesur ar draws hierarchaeth a gaiff ei thanategu gan egwyddorion cynaliadwyedd. Wrth wneud hynny, mae'r dewis hwn:

Yn rhoi anogaeth i wasgaru cyflogaeth, tai a mathau eraill o ddatblygiad rhwng aneddiadau a nodwyd a grwpiau neu glystyrau pentrefi mewn modd sy'n adlewyrchu eu graddfa bresennol, eu poblogaeth a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yno.

Yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir ac yn dosrannu twf yn briodol i ardaloedd trefol a gwledig.

Yn sicrhau bod y rhan fwyaf o dwf cyflogaeth yn digwydd yn y trefi a phentrefi mwy o faint.

| | Ams erlen | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO1 | S | + | + | + | + | - | + | - | + | + | + | +/- | + | + | + | + | + |
| | M | + | I | - | + | +/- | + | I | I | I | ++ | + | + | + | + | + | + |
| | L | + | I | - | +/- | +/- | ++ | I | I | I | ++ | + | + | + | + | + | + |

## Ffigwr 5 Arfarniad Cynaliadwyedd Dewis Gofodol 2 - Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth




Mae'r dewis hwn yn edrych ar y seilwaith cyfleustodau a'r rhwydwaith priffyrdd a ddarperir ar hyd o bryd ledled y Sir a'i nod yw sicrhau bod y rhan fwyaf o'r twf yn digwydd mewn ardaloedd sydd â'r capasiti i dyfu. Mae'r dewis hwn yn ceisio annog twf yn yr ardaloedd lle gellir darparu ar ei gyfer yn fwyaf ymarferol trwy:

Annog twf ar hyd llwybrau trafnidiaeth allweddol a chyffyrdd yr M4, yr A40, yr A48, yr A484, yr A474 a'r A485 a hefyd mewn mannau sy'n hygyrch i ddulliau trafnidiaeth eraill gan gynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd, y rhwydwaith beicio a chysylltiadau cerddwyr.

Annog twf mewn ardaloedd lle ceir naill ai gapasiti ar hyn o bryd i gyflenwi a thrin dŵr a dŵr gwastraff neu gynlluniau ar gyfer gwneud hyn.

Annog twf mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau a chyfleusterau i gynnal y cymunedau.

| | Ams erlen | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO2 | S | + | + | + | + | + | + | + | + | + | - | +/- | + | + | + | - | + |
| | M | - | + | - | +/- | + | - | + | I | I | - | - | - | - | - | - | - |
| | L | - | - | - - | - | - | - | I | I | I | - - | - | - | - | - | - | - |

## Ffigwr 6 Arfarniad Cynaliadwyedd Dewis Gofodol 3 — Gwasgaru




Mae'r dewis hwn yn dosbarthu tai, cyflogaeth a mathau eraill o ddatblygiadau mewn modd eang rhwng aneddiadau'r Sir, gan gynnwys aneddiadau trefol a gwledig fel ei gilydd. Mae'n caniatáu i aneddiadau dyfu'n raddol heb o reidrwydd ystyried y gwasanaethau neu'r cyfleusterau sydd ar gael nac ychwaith yr effaith y gallai twf ei chael ar y cymunedau presennol a'u gallu i ddarparu ar gyfer twf a'i dderbyn.

Byddai'r dewis hwn yn arwain at gyfeirio cyfran uwch o dwf y Sir i'r ardaloedd gwledig a chyfran is i'r ardaloedd trefol presennol.

| | Ams erlen | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO3 | S | - | I | - | +/- | +/- | - | I | + | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | M | - | I | - | +/- | - | - | - | I | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | L | + | - | + | +/- | - | + | - | I | - | + | - | + | + | - | + | + |

## Ffigwr 7 Arfarniad Cynaliadwyedd Dewis Gofodol 4 — Dan arweiniad y Gymuned




Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar rôl aneddiadau yn eu hardal a'u cymuned ehangach, sy'n cydnabod y berthynas a'r gyd-ddibyniaeth rhwng aneddiadau ac yn ystyried sut mae'r cymunedau lleol yn gweithio ac yn byw.

Bydd y dewis hwn yn annog twf mewn ardaloedd sy'n chwarae rhan bwysig yn y gymuned ehangach; trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n ceisio adlewyrchu anghenion cymunedau, gan gynnwys eu galw am dai.

Dylai'r dewis hwn adlewyrchu dealltwriaeth o anghenion cymunedau lleol a sicrhau bod twf yn digwydd mewn ardaloedd lle mae ei angen, er mwyn cefnogi cymunedau a'u dyheadau ar gyfer twf yn y dyfodol a materion parhaus yn ymwneud â chynaliadwyedd cyfleusterau a gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o arwain at ddyrannu safleoedd llai a chyfeirio cyfran uwch o dwf i aneddiadau llai.

| | Amserlen | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO4 | S | ? | - | - | +/- | + | - | - | + | - | + | + | + | + | + | + | ? |
| | M | + | I | - | +/- | + | + | I | I | I | ++ | + | ++ | + | + | ++ | + |
| | L | + | I | + | +/- | + | ++ | I | I | I | ++ | + | ++ | + | ++ | ++ | ++ |

## Ffigwr 8 Arfarniad Cynaliadwyedd Dewis Gofodol 5 - Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe




Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r buddsoddiad a gynllunnir fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn sianelu twf i gyd-fynd â'r ardaloedd daearyddol hyn. Y prosiectau a gynigir ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw:

Y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli. Pentref yw hwn a fydd yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau i hyrwyddo a gwella llesiant. Bwriedir iddo fod yn gyfleuster amlochrog sy'n cyfuno datblygiad busnesau, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil mewn gwyddorau bywyd mewn un lleoliad; a'r Egin, Caerfyrddin. Byddai'r cyfleuster hwn yn ganolfan greadigol, ddigidol a chyfryngau newydd i'w lleoli ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae'n debygol y bydd mwyafrif y twf yn y dewis hwn wedi'i grynhoi yng Nghaerfyrddin a Llanelli ac ardaloedd cyfagos. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o dwf wedi'i grynhoi yn yr ardaloedd rhwng y ddwy ardal hyn, fodd bynnag, prin fydd y twf mewn aneddiadau sy'n bellach o Gaerfyrddin a Llanelli, serch hynny gallai elwa ar y buddsoddiad mewnol.

| | Ams erlen | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SO5** | **S** | + | +/- | +/- | + | + | + | + | + | + | +/- | +/- | +/- | +/- | + | + | + |
| | **M** | - | I | - | - | - | - | + | I | I | +/- | - | +/- | ? | ? | - | - |
| | **L** | - | I | - - | - | - | - | I | I | I | +/- | - | +/- | ? | - | - | - |

## Ffigwr 9 Arfarniad Cynaliadwyedd Dewis Gofodol 6 — Dan arweiniad y Farchnad




Bydd y dewis hwn yn ceisio bodloni dyheadau a gofynion y diwydiant datblygu trwy nodi safleoedd ac ardaloedd sydd fwyaf deniadol yn economaidd i'w datblygu. Mae'r dewis hwn yn edrych ar lwyddiant marchnad aneddiadau'r sir ers 2008 ac yn dosrannu twf yn unol â chyfraddau cyflawni'r gorffennol.

Mae cyfraddau cyflawni'r gorffennol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd yn ardaloedd Llanelli a'r Hendy, gyda chryn dipyn o ddatblygu hefyd yn digwydd yn ardal dwf Caerfyrddin ac ardaloedd twf Rhydaman/Cross Hands.

Gellid dehongli'r dull hwn fel 'cynllunio ar sail niferoedd'. Byddai'n ceisio cyfeirio twf yn unol â'r cyfraddau cyflenwi uchaf yn y gorffennol a lle byddai datblygwyr yn adeiladu.

| | Ams erlen | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO6 | S | + | +/- | +/- | + | + | + | + | + | + | +/- | +/- | +/- | +/- | + | + | + |
| | M | - | I | - | - | - | - | + | I | I | +/- | - | +/- | ? | ? | - | - |
| | L | - | I | - - | - | - | - | I | I | I | +/- | - | +/- | ? | - | - | - |

# Dewis Hybrid – Cymuned Gytbwys a Thwf Cynaliadwy

O ganlyniad i gasgliadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd a chysylltiadau eraill a wnaed â rhanddeiliaid, argymhellwyd bod dewis gofodol hybrid yn cael ei ystyried fel y dewis a ffefrir, er mwyn symud ymlaen i'r CDLl llawn. Mae'r dewis hybrid hwn yn dwyn ynghyd yr elfennau cryfaf o bob un o'r dewisiadau gofodol, i ffurfio dewis gofodol newydd.

Mae'r dewis hybrid yn seiliedig ar Ddewis 4 – Dan Arweiniad y Gymuned gyda'r nod o gadw dull sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaethau'r aneddiadau. Bydd y dewis hybrid hefyd yn ymgorffori elfennau o Ddewis 5, gan gydnabod y buddsoddiad a'r manteision economaidd a ddaw i'r Sir yn sgil Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae hefyd yn cydnabod ffocws Dewis 2; sef bod angen i dwf cynaliadwy gael ei ategu gan ystod o seilwaith priodol. Yn unol â Dewis 6, mae hefyd yn cydnabod bod rhaid i'r twf fod yn un y gellir ei gyflawni a'i fod yn seiliedig ar anghenion y gymuned a galw'r farchnad.

Cafodd y dewis hybrid ei asesu yn erbyn fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd a dangosir crynodeb ar dudalen 20.

Daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd i'r casgliad bod y Dewis Hybrid yn perfformio'n dda iawn yn erbyn yr Amcanion cynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol, gan sicrhau'r cyfleoedd gorau ar gyfer addysg a sgiliau, poblogaeth, yr economi ac iechyd a llesiant. Roedd y Dewis Hybrid hefyd yn perfformio'n dda o ran yr iaith Gymraeg gan y byddai'n darparu hinsawdd economaidd a chymdeithasol fywiog a deniadol ar gyfer siaradwyr Cymraeg ifanc y Sir.

Roedd y dewis Hybrid yn lleihau'r effeithiau ar ansawdd aer a ffactorau hinsoddol gan y byddai twf yn cael ei leoli mewn mannau cynaliadwy lle ceir seilwaith digonol, a fyddai'n lleihau'r defnydd o geir preifat. Roedd hefyd yn lleihau rhywfaint ar y risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd gan fod llai o dwf yn cael ei gyfeirio i ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd.

Gellir gweld yr asesiad llawn ar dudalennau 67 i 71 o'r Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd.



## Ffigwr 10 Arfarniad Cynaliadwyedd Dewis Gofodol 7 - Dewis Hybrid




| | Amserlen | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SO7 | S | + | - | +/- | +/- | +/- | - | - | + | - | + | + | + | ++ | + | + | + |
| | M | + | I | + | +/- | + | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | + |
| | L | + | I | + | + | + | ++ | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | + |

# Arfarniad Cynaliadwyedd o Bolisïau Strategol

Mae Polisïau Strategol y CDLl yn bolisïau lefel uchel sydd â'r nod o gyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol. Ynghyd â'r polisïau hyn ceir polisïau penodol manylach sydd hefyd yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd.

Nodir y Polisïau Strategol drafft wedi'u nodi gyferbyn. Mae manylion llawn y polisïau hyn i'w gweld ym Mhennod 11 o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl diwygiedig. Dangosir crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Polisïau Strategol ar dudalen 22. Ceir yr arfarniad llawn yn Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir ar dudalennau 72 i 102.

Canfu'r Arfarniad Cynaliadwyedd fod y 19 Polisi Strategol yn perfformio'n dda yn erbyn y Fframwaith Cynaliadwyedd, ac ychydig iawn o achosion posibl o wrthdaro y tynnwyd sylw atynt. Roedd y prif wrthdaro rhwng y Polisïau Strategol a'r fframwaith cynaliadwyedd yn ymwneud â bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffactorau hinsoddol. Fodd bynnag, roedd yr holl bolisïau yn perfformio'n dda yn erbyn yr amcanion poblogaeth, addysg a sgiliau, iechyd a llesiant a'r economi.

Gwnaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd nifer o argymhellion fel rhan o'r arfarniad i wella cynaliadwyedd y polisïau ac i liniaru'r effeithiau a nodir. Lle gall fod yna broblemau o hyd, dylid mynd i'r afael â'r rhain wrth lunio'r polisïau manwl ar gyfer Cam Adneuo'r CDLl.

## Polisïau Strategol

**Polisïau Strategol**

**SP1** Twf Strategol
**SP2** Manwerthu a Chanol Trefi
**SP3** Darparu Cartrefi Newydd
**SP4** Tai Fforddiadwy
**SP5** Safleoedd Strategol
**SP6** Gwaith a'r Economi
**SP7** Y Gymraeg a Diwylliant Cymru
**SP8** Seilwaith
**SP9** Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr
**SP10** Yr Economi Ymwelwyr
**SP11** Creu Ymdeimlad o Le, Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da
**SP12** Datblygu Gwledig
**SP13** Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
**SP14** Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol
**SP15** Newid yn yr Hinsawdd
**SP16** Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau
**SP17** Trafnidiaeth a Hygyrchedd
**SP18** Adnoddau Mwynol
**SP19** Rheoli Gwastraff

## Effeithiau Cyffredinol y Strategaeth a Ffefrir

Yn gyffredinol, canfu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y byddai Strategaeth a Ffefrir y CDLl diwygiedig yn dod â manteision sylweddol o ran darparu'r tir ar gyfer tai a chyflogaeth sydd ei angen i gynnal twf cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin.

Perfformiodd y Strategaeth a Ffefrir yn dda yn erbyn amcanion economaidd-gymdeithasol yr Arfarniad Cynaliadwyedd, gydag opsiynau strategol sydd â'r nod o wella mynediad i swyddi o ansawdd da, gwasanaethau a seilwaith ategol ar draws y sir, a golwg ar fynd i'r afael â pheth o'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Roedd y Strategaeth a Ffefrir hefyd yn ceisio gwella iechyd a llesiant yn Sir Gaerfyrddin, gyda rhagor o dai fforddiadwy, mynediad at fannau agored a seilwaith teithio llesol.

Fel yn achos unrhyw ddatblygiad, roedd yna rai effeithiau negyddol posibl o hyd, yn enwedig o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffactorau hinsoddol. Fodd bynnag, gyda mesurau lliniaru addas ar waith, gellir lleihau unrhyw effeithiau negyddol sy'n weddill. Roedd rhai camau lliniaru eisoes wedi cael eu gweithredu yn y Strategaeth a Ffefrir o ganlyniad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd, megis dethol opsiwn gofodol hybrid a oedd yn ceisio cyfuno agweddau gorau'r opsiynau gofodol. Gwnaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd hefyd awgrymiadau ar gyfer newid geiriad yr Opsiynau Strategol.

Dangosir crynodeb o Arfarniad Cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir yn ei chyfanrwydd ar dudalen 29.

Ffigur 11 Matrics Cryno o Arfarniad Cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir - Polisïau Strategol y CDLl diwygiedig

| Polisïau Strategol | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SP1 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP2 | + | I | +/- | +/- | I | | I | I | + | + | | | | ++ | |
| SP3 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP4 | + | | | | | | | | | ++ | + | + | + | + | ++ |
| SP5 | + | - | +/- | +/- | ? | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| SP6 | + | - | +/- | + | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | | + | ++ | + |
| SP7 | + | | | | | | | + | | + | ++ | | + | + | ++ |
| SP8 | ++ | +/- | + | + | + | + | - | - | - | ++ | | + | + | + | ++ |
| SP9 | + | I | | | ? | | I | I | I | + | | | | | + |
| SP10 | + | I | +/- | +/- | I | + | I | I | I | + | +/- | ++ | + | ++ | + |
| SP11 | ++ | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | | + | | + | + |
| SP12 | + | - | + | + | - | + | - | I | - | + | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP13 | + | ++ | + | + | + | | + | | + | | | + | | + | |
| SP14 | + | | | | | | | ++ | + | | | + | | + | |
| SP15 | ++ | + | + | ++ | + | + | | | | | | + | ? | | |
| SP16 | ++ | - | + | + | ? | ++ | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP17 | ++ | + | ++ | + | | ++ | | | | + | | + | + | | + |
| SP18 | I | - | - | - | | ? | - | I | - | | | | | + | |
| SP19 | I | - | I | I | | + | - | I | - | | | I | | + | |

# Ffigur 12 Matrics Cryno o Arfarniad Cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir

| | SA1 | SA2 | SA3 | SA4 | SA5 | SA6 | SA7 | SA8 | SA9 | SA10 | SA11 | SA12 | SA13 | SA14 | SA15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwelegigaeth | + | + | ? | ? | ? | + | ? | ? | ? | + | | + | + | + | + |
| Amcanion | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | + | + | + | + | ++ |
| Dewis Twf 4 | + | +/- | +/- | +/- | ? | | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| Dewis Gofodol Hybrid | + | I | + | +/- | + | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| Polisïau Strategol | | | | | | | | | | | | | | | |
| SP1 | + | - | - | - | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP2 | + | I | +/- | +/- | I | | I | I | + | + | | | | ++ | |
| SP3 | + | - | - | - | + | + | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | + |
| SP4 | + | | | | | | | | | ++ | + | + | + | + | ++ |
| SP5 | + | - | +/- | +/- | ? | + | I | I | I | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ |
| SP6 | + | - | +/- | + | ? | + | I | I | I | ++ | +/- | | + | ++ | + |
| SP7 | + | | | | | | | + | | + | ++ | | + | + | ++ |
| SP8 | ++ | +/- | + | + | + | + | - | - | - | ++ | | + | + | + | ++ |
| SP9 | + | I | | | ? | | I | I | I | + | | | | | + |
| SP10 | + | I | +/- | +/- | I | + | I | I | I | + | +/- | ++ | + | ++ | + |
| SP11 | ++ | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | | + | | + | + |
| SP12 | + | - | + | + | - | + | - | I | - | + | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP13 | + | ++ | + | + | + | | + | | + | | | + | | + | |
| SP14 | + | | | | | | | ++ | + | | | + | | + | |
| SP15 | ++ | + | + | ++ | + | + | | | | | | + | ? | | |
| SP16 | ++ | - | + | + | ? | ++ | I | I | I | ++ | +/- | + | + | ++ | ++ |
| SP17 | ++ | + | ++ | + | | ++ | | | | + | | + | + | | I+ |
| SP18 | I | - | - | - | | ? | - | I | - | | | | | + | |
| SP19 | I | - | I | I | | + | - | I | - | | | I | | + | |

# Cam C - Arfarnu'r Cynllun Adneuo

Cafodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd o Gynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig ei gynhyrchu a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2019. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi asesu cynaliadwyedd y Cynllun Adneuo, gan gynnwys:

- Unrhyw newidiadau a wnaed i weledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun.
- Unrhyw newidiadau a wnaed i'r gwahanol opsiynau a gynigir ar gyfer twf tai.
- Unrhyw newidiadau a wnaed i'r gwahanol opsiynau gofodol a gynigir ar gyfer dosbarthiad twf.
- Unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisïau strategol a gynigir i weithredu'r strategaeth.
- Y polisïau penodol sy'n ymhelaethu ar weithredu'r polisïau'r strategol.
- Y safleoedd a ddyrannir yn y cynllun i gyflawni'r twf a gynigir yn y cynllun, yn ogystal ag unrhyw 'ddewisiadau amgen rhesymol' a gafodd eu hystyried wrth ddewis y safleoedd a ddyrannwyd.

Rhaid i Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Adneuo hefyd fanylu ar gamau arfaethedig i fonitro gwir effeithiau gweithredu'r cynllun, gan nodi dangosyddion, targedau, sbardunau a chamau gweithredu priodol.



# Arfarniad Cynaliadwyedd o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun Adneuo

Yn dilyn adborth o Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir a'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2018 i Ionawr 2019), cafodd y Weledigaeth ei diwygio ar gyfer y CDLl diwygiedig Adneuo. Ychwanegwyd at eiriad y Weledigaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cyfeirio at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn y sir, yn ogystal â chyfeirio at y ffaith nad yw Sir Gaerfyrddin yn cael ei gwerthfawrogi gan breswylwyr yn unig, ond gan ei hymwelwyr hefyd sy'n amlygu pwysigrwydd twristiaeth i'r sir. Dangosir y Weledigaeth ddiwygiedig yma.

Arweiniodd hyn at ailasesiad o'r Weledigaeth yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd, a dangosir y canlyniadau yn Ffigur 13.

